Staff Llanw / Banc - Gofal Cymdeithasol

Lleoliad: Canolfan Gofal Preswyl Cysgod y Gaer, Corwen
Cyflog: Gradd 1 - 4, £12.65 - £13.26 yr awr (yn ddibynnol ar rôl y swydd)
Oriau: Llanw

- Ydych chi'n chwilio am waith ychwanegol i'ch incwm cyfredol?
- Ydych chi eisiau hyblygrwydd gyda'ch oriau gwaith i fodloni o gwmpas eich bywyd gartref?
- Ydych chi'n ystyried gyrfa mewn gofal cymdeithasol ac yn ceisio ennill profiad?

Os mai 'ydw' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, yna hoffem glywed gennych chi.

Nod Cysgod y Gaer yw darparu gofal preswyl, seibiant a dydd o ansawdd uchel a gaiff ei arwain gan anghenion i gefnogi pobl hŷn ardal Corwen a'u gofalwyr.

Os ydych chi'n credu y gallwch gynnig yr agwedd ofalgar a hyblyg sydd ei hangen fel y gall y sefydliad, lle mae anghenion y cleientiaid yn hollbwysig, weithredu'n ddidrafferth yna fe hoffem glywed gennych.

Mae'r swyddi hyn ar sail llanw/ yn ôl y gofyn, a gallent fod yn hyblyg i fodloni eich amgylchiadau.

Rydym yn cynnig cyfradd tâl gystadleuol o Raddfa 1 - Graddfa 4 (£12.65 - £13.26 yr awr) yn ddibynnol ar rôl y swydd.

Darperir hyfforddiant llawn ynghyd ag telir ffioedd cofrestru a telir ffi gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gan yr ymgeiswyr delfrydol agwedd gofalgar naturiol, a byddant eisiau gwneud gwahaniaeth ym mywydau eraill.

Penodir yn amodol ar wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymdeithasol a geirdaon boddhaol.

I gael trafodaeth anffurfiol ynghylch y swyddi sydd ar gael, ffoniwch Catherine Roberts ar 01490 412394.

Gallwch gyflwyno ffurflen gais ar wefan Cyngor Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk I wybod am ddulliau eraill o wneud cais dylech anfon e-bost at swyddigofalcymdeithasol@sirddinbych.gov.uk neu ffonio 01824 712187.

Staff Llanw / Banc - Gofal Cymdeithasol

Lleoliad: Canolfan Gofal Preswyl Cysgod y Gaer, Corwen
Cyflog: Gradd 1 - 4, £12.65 - £13.26 yr awr (yn ddibynnol ar rôl y swydd)
Oriau: Llanw

Cynorthwyydd Cegin Ddomestig Llanw Graddfa 1: £12.65 yr awr
Cynorthwyo i baratoi llysiau ac i gadw ardal y gegin yn lân, gan gadw at Ganllawiau Iechyd a Diogelwch a gweithio fel tîm yn cyfrannu at les dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

Gweithiwr Golchi Dillad Llanw Graddfa 1: £12.65 yr awr
Mae'r gweithiwr golchi dillad yn gyfrifol am olchi a chynnal holl waith golchi dillad yn y cartref; enghreifftiau megis dillad gwely, llieiniau, golch y gegin, a dillad ac eitemau personol y dinasyddion.

Cynorthwyydd Domestig Llanw Graddfa 2: £12.85 yr awr
Cynnal safon uchel o hylendid a glanweithdra ar draws y safle ac i weithio fel rhan o dîm yn cyfrannu ar les preswylwyr, tenantiaid a defnyddwyr y ganolfan.

Cynorthwyydd Gofal Dydd Llanw Graddfa 3: £13.05 yr awr
Cynorthwyydd Gofal Nos Llanw Graddfa 4: £13.26 yr awr
Cynnig cefnogaeth fel rhan o dîm gofal ymroddedig i sicrhau bod anghenion preswylwyr yn cael eu diwallu i'r safon uchaf posib a'u bod yn cael profiad cadarnhaol o ofal preswyl.

Cogydd Cynorthwyol Llanw Graddfa 3: £13.05 yr awr
Cynnal safonau uchel o ddyletswyddau arlwyo cyffredinol, a chynorthwyo'r Cogydd. Sicrhau bod y gegin a'r ardaloedd cysylltiedig yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr glân a diogel bob amser, gan arsylwi a chynnal safonau hylendid bwyd.

Cogydd Llanw Graddfa 4: £13.26 yr awr
Cynnal gegin prysur yn darparu prydau bwyd i ddinasyddion. Sicrhau bod darpariaeth bwyd a diogelwch bwyd o ansawdd/ safon uchel drwy'r amser gyda chymorth y cogydd cynorthwyol a chynorthwyydd cegin.

Nodwch y rôl/rolau yr ydych yn gwneud cais amdanynt ar eich ffurflen gais.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonauiaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraegyn cael eu trin yn llai ffafriolna ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

www.sirddinbych.gov.uk
swyddigofalcymdeithasol@sirddinbych.gov.uk
☎ 01824 712187

Gofalwn.cymru

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council